

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda, **Practis
Deintyddol IDH Stryd
Thomas**

9 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
	Ansawdd yr Amgylchedd	16
6.	Camau Nesaf	18
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol IDH Stryd Thomas yn 45 Stryd Thomas, Llanelli yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 2 Chwefror 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru¹.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

¹ Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Daeth Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol IDH Stryd Thomas yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llanelli. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, naw nyrs, dau dderbynnydd ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol, gan gynnwys mewnbhaniadau deintyddol a gwynnu dannedd. Mae tua 60% o'r cleifion yn cael eu trin yn breifat, ac mae tua 40% yn gleifion y GIG.

Gan fod Practis Deintyddol IDH Stryd Thomas yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a GIG, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau (Diwygio) 2011.

4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Practis Deintyddol IDH Stryd Thomas yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Nododd yr holl gleifion a gwblhaodd arolwg ac y siaradwyd â nhw eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol. Argymhellwyd bod y practis yn gwneud gwelliannau i'r wybodaeth a roddir i gleifion a'r dulliau o gael adborth.

Gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu'n ddiogel i gleifion. Yn gyffredinol, roedd cofnodion cleifion y practis yn foddhaol, ond rydym yn argymhell gwneud rhai gwelliannau o ran hanes cymdeithasol, cynllunio triniaeth, dewisiadau o ran triniaeth, cydsyniad gwybodus, sgrinio ar gyfer canser y geg, a nodiadau yn ymwneud â radiograffau.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn ddiogel a bod systemau ar waith i sicrhau diogelwch cleifion. Cafodd rheolwr dros dro'r practis ei benodi'n ddiweddar tra bod y rheolwr practis presennol o'i waith am gyfnod hirdymor. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi ymdrechion rheolwr presennol y practis, a gwelsom dystiolaeth o'i waith dros y misoedd diwethaf i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn ddidrafferth.

Gwelsom fod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol a'i fod yn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Roedd mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Nododd yr holl gleifion a gwblhaodd arolwg ac y siaradwyd â nhw eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol. Argymhellwyd bod y practis yn gwneud gwelliannau i'r wybodaeth a roddir i gleifion a'r dulliau o gael adborth.

Cwblhawyd ugain o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Hefyd, gwnaethom siarad â phedwar claf ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd pob claf eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis, a'u bod yn cael croeso cynnes gan y staff.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar iawn ac yn broffesiynol. Bob amser wedi gwneud lle i mi os oes angen apwyntiad brys arna i. Mae fy neintydd yn gydymdeimladol iawn o fy ofnau ac mae'n ymdrin â mi gyda thosturi, amynedd a dealltwriaeth."

"Rydw i bob amser o'r farn bod y staff yn gyfeillgar a chroesawgar iawn. Does dim byd yn ormod o drafferth. Maen nhw'n groesawgar iawn."

"Rydw i wedi bod yn mynd i'r ddeintyddfa hon ers i mi fod yn fy arddegau. Rydw i wedi gweld cwpl o wahanol ddeintyddion ers i mi fod yn dod yma. Mae pob un ohonyn nhw wedi bod yn dda iawn."

"Mae'r staff a'r deintyddion yn broffesiynol a chyfeillgar iawn ac maent yn sicrhau bod fy ymweliadau'n gyfforddus iawn."

Dywedodd un o'r cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad ei fod yn nerfus ynglŷn â mynd at y deintydd, ond dywedodd fod y deintydd yn dda iawn ac yn ei helpu i dawelu ei feddwl.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion nad oeddent wedi profi oedi wrth gael eu gweld gan y deintydd, a'u bod yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau gwaith. Gwelsom arwydd yn ffenestr y practis yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng ar gyfer gwasanaethau 'y tu allan i oriau gwaith', a chadarnhawyd y darperir rhif cyswllt ar neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd pob claf wrthym eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Pan ofynnwyd a oeddent yn derbyn digon o wybodaeth, dywedodd un claf *"ydw, mae popeth bob amser yn cael ei esbonio'n dda"*. Dywedodd staff wrthym eu bod yn trafod dewisiadau o ran triniaethau gyda'r cleifion. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhelliad ynglŷn â chofnodi dewisiadau o ran triniaethau yn nodiadau'r cleifion yn yr adran ganlynol ynghylch Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru (tudalen 12).

Roedd system apwyntiadau hyblyg wedi'i sefydlu, a gallai cleifion drefnu apwyntiad o flaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau hanner awr ar gael bob dydd ar gyfer pob deintydd ar gyfer apwyntiadau brys. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cael eu gweld yn gyflym, pan fo angen.

Gwelsom dystiolaeth bod arolygon cleifion wedi'u cynnal yn flaenorol yn y practis. Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oedd arolygon wedi'u cynnal yn ddiweddar, ond eu bod yn bwriadu eu cynnal yn rheolaidd yn y dyfodol. Awgrymwyd efallai y byddai'r practis am ystyried darparu blwch awgrymiadau yn y man aros i gleifion.

Argymhelliad

Dylai'r practis ddatblygu dull o geisio barn ac adborth gan gleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.

Dywedodd wyth allan o ugain o gleifion eu bod yn ansicr o ran sut i wneud cwyn. Gwelsom fod posteri cwynion wedi'u harddangos yn y mannau aros i gleifion. O ystyried sylwadau'r cleifion, efallai byddai'r practis am ystyried sut y gellid sicrhau bod y posteri cwynion yn fwy amlwg i gleifion.

Roedd gan y practis wefan a oedd yn glir ac yn hawdd i'w defnyddio. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, nid oedd yn cynnwys cyfeiriad y ²Cyngor Deintyddol Cyffredinol, na dolen i'w wefan fel sy'n ofynnol dan ganllawiau hysbysebu'r Cyngor. Roedd y wefan yn cynnwys adran ar adborth cleifion a oedd yn cadarnhau y dylid cyflwyno cwynion i reolwr y practis, a fyddai'n gallu darparu manylion sefydliadau eraill y byddai cleifion yn dymuno cysylltu â nhw o bosib pe byddent yn dymuno gwneud cwyn. Fodd bynnag, dylid arddangos y

² Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw'r sefydliad sy'n rheoleiddio deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gweithio yn y DU fel deintydd neu weithiwr gofal deintyddol proffesiynol fod wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

wybodaeth hon ynglŷn â sefydliadau eraill ar wefan y practis hefyd, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ar ei wefan yn cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd rhestrau prisiau deintyddiaeth breifat a GIG wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Nid oedd unrhyw daflenni gwybodaeth am y practis ar gael i gleifion. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y darparwr wrthi'n ail-frandio, gan y bu newid perchnogaeth yn ddiweddar. O ganlyniad, roeddent yn aros am gopiau diweddaraf o daflenni gwybodaeth am y practis.

Gwelsom mai dim ond ychydig o wybodaeth am hybu iechyd oedd wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r manau aros, ar wahân i daflenni yn ymwneud â rhoi'r gorau i ysmygu. Argymhellwyd y dylai'r practis ystyried darparu mwy o wybodaeth am hybu iechyd, megis atal canser y geg ac ymwybyddiaeth o gynnwys siwgr mewn bwydydd a diodydd poblogaidd.

Argymhelliad

Dylai'r practis ystyried darparu gwybodaeth bellach i gleifion am hybu iechyd.

Awgrymwyd y dylai'r practis ystyried sut y gallent sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, maint ffont/testun mwy a darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan gleifion.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu'n ddiogel i gleifion. Yn gyffredinol, roedd cofnodion cleifion y practis yn foddhaol, ond rydym yn argymhell gwneud rhai gwelliannau o ran hanes cymdeithasol, cynllunio triniaeth, dewisiadau o ran triniaeth, cydsyniad deallus, sgrinio ar gyfer canser y geg, a nodiadau yn ymwneud â radiograffau.

Cyfleusterau Clinigol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol ym mhob deintyddfa, a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Nodwyd bod pob deintyddfa'n lân a thaclus ar y cyfan. Gwelsom fod offer yn cael eu storio'n briodol er mwyn osgoi halogi. Gwelsom fod stamp dyddiad yn cael ei roi ar offer glân ac wedi'u lapio i ddangos pryd y cawsant eu glanhau a'r dyddiad dod i ben. Mae hyn yn golygu bod system addas wedi'i sefydlu yn y practis er mwyn sicrhau nad yw offer yn cael eu cadw y tu hwnt i'r cyfnod storio a argymhellir.

Roedd system addas ar waith ar gyfer defnyddio nodwyddau'n ddiogel er mwyn atal anafiadau i staff a achosir gan gyfarpar miniog. Sylwyd bod y practis wedi prynu un o'r systemau mwy diogel ar gyfer cael gwared ar nodwyddau, ond nid oedd pob deintydd yn ei defnyddio. Argymhellwyd y dylai pob deintydd geisio defnyddio'r system hon, fel eu bod yn gallu gwneud cynnydd o ran arfer gorau.

Dadheintio offer

Ceir ystafell benodol yn y practis ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol ac mae prosesau addas ar waith er mwyn amddiffyn cleifion rhag croes-heintio. Roedd sinciau golchi dwylo penodol ac eitemau tafladwy ar gael i helpu gyda rheoli heintiau. Gwelsom fod y staff yn gwisgo offer amddiffynnol personol addas yn ystod y dadheintio.

Gwelsom fod llyfrau cofnodion yn cael eu cynnal ar gyfer glanhau offer, a dangosodd un o'r nyrsys deintyddol yr archwiliadau safonol maent yn ei wneud ar ddechrau a diwedd pob dydd. Ni welwyd tystiolaeth o gofnodion hyfforddiant unigol ar gyfer dadheintio, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol

lechydd Cymru³ (WHTM 01-05). Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion hyfforddiant unigol ar gyfer dadheintio ar gael i'r holl staff sy'n ymwneud â dadheintio.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau ym mis Hydref 2014, ac wedi datblygu cynllun gweithredu er mwyn rhoi sylw i'r materion a amlygwyd. Sylwyd bod y dull archwilio a ddefnyddiwyd wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio yn Lloegr yn bennaf, ac argymhellwyd y dylai'r practis ddefnyddio'r dull archwilio a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Argymhellwyd hefyd y dylai'r practis nodi dyddiadau targed ar gyfer pan fyddai'r camau gweithredu a nodwyd yn yr archwiliad rheoli heintiau wedi eu cwblhau.

Gwaredu ar wastraff

Ar y cyfan, roedd gwastraff yn cael ei reoli, ei gadw a'i waredu yn briodol yn y practis ac roedd contract gwaredu ar wastraff clinigol cyfredol wedi'i sefydlu. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael gwared ar fodelau/argraffiadau deintyddol yn y gwastraff clinigol ac nid mewn cynhwysydd gwastraff priodol.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod modelau/argraffiadau deintyddol yn cael eu gwaredu yn y cynhwysydd gypswm priodol ac nid yn y bagiau gwastraff clinigol.

Sylwyd hefyd bod angen diweddarau'r polisi trin mercwri (a ddefnyddir ar gyfer rhai mathau o lenwadau dannedd), gan fod darnau amrywiol o wybodaeth yn y polisi, gyda rhai ohonynt wedi'u diweddarau ddiwethaf yn 2005.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod polisi trin mercwri cyfredol yn cael ei sefydlu.

³ Cyfres o ganllawiau yw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a fwriedir ar gyfer codi ansawdd gwaith dadheintio (glanhau a sterileiddio) mewn gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol.

Cyfarpar radiograffig

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydrau-X) yn ddiogel. Roedd dogfennau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi ar gael. Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y deintyddion wedi cwblhau'r hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio angenrheidiol. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer pelydrau-X wedi'u cynnal er mwyn sicrhau ansawdd y ddelwedd.

Cadw cyffuriau ac offer brys

Roedd offer dadebru a meddyginiaeth briodol ar gael i staff pe byddai argyfwng gyda chlaf (cwmpiad) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol. Gwelsom fod meddyginiaethau brys yn cael eu cadw'n briodol yn y practis ac roedd llyfr cofnodion ar gyfer archwilio dyddiad dod i ben cyffuriau. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod prif swyddfa'r darparwr yn cadw cofnod o ddyddiadau dod i ben y cyffuriau hefyd, a'u bod yn cael eu hailarchebu'n awtomatig pan fo hynny'n ofynnol. Roedd llyfrau meddyginiaeth a phresgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel yn y practis.

Cofnodion cleifion

Edrychwyd yn fanwl ar gyfanswm o un ar ddeg o gofnodion cleifion, gyda samplau yn cael eu cymryd gan bob deintydd. Roedd y cofnodion cleifion yn y practis yn foddhaol ar y cyfan. Gwelsom hefyd fod system addas ar waith yn y practis ar gyfer cael gafael ar archwiliadau hanes meddygol, ac roedd y deintydd yn eu cydlofnodi. Fodd bynnag, sylwyd bod cofnodion cleifion un o'r deintyddion yn anghymwys. Cytunodd y deintydd dan sylw i wneud gwelliannau. Gwelsom hefyd fod deintydd arall wedi bod yn cadw cofnodion gwael yn flaenorol, ond roedd hyn wedi gwella dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Trafodwyd ein canfyddiadau â'r deintyddion a rheolwr y practis.

Nodwyd yr arsylwadau canlynol a'r gwelliannau sydd angen eu gwneud i gofnodion cleifion yn y practis:

- Nid oedd hanes cymdeithasol, gan gynnwys ysmygu a defnydd o alcohol yn cael ei gofnodi'n gyson.
- Roedd angen gwella ar y dystiolaeth o gynllunio triniaeth.
- Nid oedd dewisiadau o ran triniaethau bob amser yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

- Nid oedd cydsyniad gwybodus yn cael ei gofnodi'n gyson. Dywedwyd wrthym fod gweithdrefnau triniaeth yn cael eu hesbonio ar lafar i gleifion, ond ni roddwyd gwybodaeth am driniaethau yn ysgrifenedig (e.e. sianel y gwreiddyn, corunau a thynnu dannedd) iddynt eu hystyried a gwneud penderfyniad gwybodus.
- Nid oedd sgrinio am ganser y geg yn cael ei gofnodi'n gyson yn y nodiadau.
- Nid oedd cyfiawnhad dros gymryd pelydr-X a'r canfyddiadau clinigol (yr hyn mae'r pelydr-x yn ei ddangos) yn cael eu cofnodi bob amser. Gwelsom hefyd nad oedd pa mor aml y cymerir pelydrau-X yn cydymffurfio â'r canllawiau cymeradwy.⁴

Argymhelliad

Dylid gwneud gwelliannau i'r broses o gadw cofnodion cleifion, yn enwedig o ran hanes cymdeithasol, cynllunio triniaeth, dewisiadau o ran triniaethau, cydsyniad gwybodus, sgrinio ar gyfer canser y geg, a nodiadau yn ymwneud â radiograffau. Dylai'r practis sicrhau bod y canllawiau a'r meini prawf dethol yn cael eu dilyn o ran pa mor aml y dylid cymryd radiograffau.

⁴Mae Cyfadran Practis Deintyddol Cyffredinol (FGDP) DU wedi datblygu canllawiau ar gyfer 3^{ydd} Rhifyn Y Meini Prawf Dethol ar gyfer Radiograffeg Deintyddol sef y trydydd o'r pum llyfr yn y gyfres FGDP o safonau ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol. Mae'r Gyfadran Practis Deintyddol Cyffredinol (FGDP) yn cefnogi timau deintyddol gofal sylfaenol er mwyn gwella safonau gofal cleifion.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn ddiogel a bod systemau ar waith i sicrhau diogelwch cleifion. Cafodd rheolwr dros dro'r practis ei benodi'n ddiweddar tra bod y rheolwr practis presennol o'i waith am gyfnod hirdymor. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi ymdrechion rheolwr presennol y practis, a gwelsom dystiolaeth o'i waith dros y misoedd diwethaf i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn ddidrafferth.

Mae'r practis yn darparu tua 40% o driniaethau GIG ac 60% o driniaethau preifat i gleifion. Roedd rheolwr y practis wedi bod yn gweithio yno ers mis Hydref 2014 ac roedd ar gael wrth gefn i gyflenwi yn lle'r rheolwr practis presennol sydd o'i waith am gyfnod hirdymor. Dywedwyd wrthym nad oedd y practis, cyn mis Hydref 2014, wedi'i reoli'n gyson ers 2012. Er gwaethaf y cyfnod byr roedd rheolwr presennol y practis wedi bod yn gweithio yno, gwelsom dystiolaeth o'r gwaith a wnaed i sicrhau bod systemau a phrosesau rheoli yn cael eu sefydlu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi cael y cymorth rheoli a ddarperir gan reolwr y practis. Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddent yn gyfforddus yn trafod unrhyw bryderon â'r rheolwr.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol wedi'u sefydlu yn y practis. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod angen diweddarau llawer o'r polisiau gan fod y dyddiadau adolygu wedi bod ers dros flwyddyn, ac nid oedd dyddiadau adolygu wedi'u nodi ar rai eraill. Mae hyn yn golygu nad oedd yn amlwg os mai'r fersiwn diweddaraf oedd y polisi ai peidio. Gwelsom hefyd nad oedd y polisiau corfforaethol safonol a ddefnyddiwyd wedi'u haddasu'n gyson ar gyfer defnydd lleol yn y practis. Nid oedd llofnodion staff ar bob polisi er mwyn dangos eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth.

Argymhelliad

Dylai'r practis gael system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n gyfredol, wedi'u haddasu ar gyfer defnydd lleol a bod y staff yn ymwybodol ohonynt.

Cadarnhawyd bod y deintyddion wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad. Gwelsom dystysgrifau ar gyfer y pum deintydd a oedd yn cadarnhau eu cofrestriad gydag AGIC ac roeddent wedi'u harddangos yn y practis. Sylwyd bod angen diweddarau'r dystysgrifau gydag enw presennol y practis a chyfeiriad presennol AGIC. Cytunodd y practis i gywiro hyn.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod arfarniadau blynyddol wedi'u cynnal yn ystod y blynyddoedd blaenorol, ond nid yn ddiweddar. Dywedwyd wrthym y byddai arfarniadau'n cael eu cynnal yn y dyfodol.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod arfarniadau'n cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis.

Roedd y deintyddion wedi dechrau cael cyfarfodydd wythnosol yn ddiweddar i drafod materion clinigol a chynnal archwiliadau. Dywedodd un deintydd wrthym eu bod yn elwa ar gael trafodaethau clinigol gyda'u cydweithwyr a'u bod yn gofyn am gyngor gan ei gilydd. Mae hyn yn golygu bod y practis yn defnyddio goruchwyliaeth anffurfiol gan gymheiriaid i helpu i sicrhau ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir.

Edrychwyd ar sampl o ffeiliau staff yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod gan y staff clinigol gofnodion imiwnedd hepatitis B. Fodd bynnag, gwelsom fod cofnodion un deintydd yn dangos bod angen pigiad atgyfnerthu ac roedd y statws imiwnedd ar gyfer y nyrsys deintyddol yn aneglur. Mae hyn yn golygu efallai nad yw'r staff wedi'u hamddiffyn yn ddigonol yn erbyn feirysau a gludir yn y gwaed. Nid oedd un aelod o'r staff wedi cael digon o imiwnedd er ei fod wedi derbyn pigladau. Dywedodd rheolwr y practis fod asesiad risg ar wahân wedi'i gynnal ar gyfer yr aelod hwn o staff, a bod camau wedi'u cymryd i helpu i'w hamddiffyn rhag yr haint hepatitis B.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y brechiadau priodol i'w hamddiffyn yn erbyn feirysau a gludir yn y gwaed.

Edrychwyd ar sampl o ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y staff. Roeddent yn dangos bod y staff yn cael cyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion.

Roedd trefniadau addas yn y practis ar gyfer cymorth iechyd galwedigaethol gan y bwrdd iechyd, ac ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal tuag unwaith bob mis a gwelsom enghraifft o nodiadau o'r ddau gyfarfod diwethaf. Roedd y nodiadau o'r cyfarfod yn darparu cofnodion priodol o'r trafodaethau.

Roedd gan y practis system foddhaol o gofnodi cwynion drwy ddefnyddio system electronig. Roedd yr ohebiaeth hefyd yn cael ei chadw gyda'i gilydd mewn ffeil bapur. Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod yn y broses o

gwblhau achos o gŵyn. Gwelsom dystiolaeth yr ymdrinnir â chwynion yn briodol yn y practis.

Edrychwyd ar y polisiâu cwynion a gwelsom fod angen i'r amserlen ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion gyd-fynd â gweithdrefn gwyno'r GIG a elwir yn 'Gweithio i Wella'⁵ a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat ar gyfer cleifion preifat. Roedd y poster cwynion corfforaethol safonol yn yr ystafell aros yn cyfeirio'n anghywir at yr Ombwdsmon Seneddol yn Lloegr ac nid Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gwelsom hefyd ei fod yn cyfeirio at wasanaethau eiriolaeth cleifion yn Lloegr yn hytrach na'r Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru. Roedd fersiwn lleol o'r polisi cwynion wedi'i arddangos yn y practis hefyd ac roedd yn cyfeirio at yr Ombwdsmon cywir.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis ychwanegu'r manylion cyswllt canlynol ar gyfer sefydliadau y gallai cleifion gysylltu â nhw os oes ganddynt gŵyn yn ymwneud â'r polisi lleol: AGIC, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol. Roedd angen hefyd i'r polisi fod yn gliriach ynglŷn â'r broses a'r sefydliadau perthnasol i gysylltu â nhw, yn dibynnu ar ba un a oedd cleifion yn derbyn triniaeth GIG neu breifat.

Argymhelliad

Rhaid i'r amserlen ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion a nodir yn y polisi cwynion gydymffurfio â Gweithio i Wella i gleifion y GIG (cydnabod mewn dau ddiwrnod, ymateb mewn tri deg diwrnod), ac â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat i gleifion preifat (cydnabod mewn tri diwrnod, ymateb mewn deg diwrnod).

Dylid darparu manylion cyswllt sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw pe byddai ganddynt gwynion (h.y. AGIC, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol).

Dylai'r polisi cwynion nodi'n fanwl y weithdrefn a'r sefydliadau i gysylltu â nhw, yn dibynnu ar ba un a yw cleifion yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG.

⁵ 'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.

Ansawdd yr Amgylchedd

Roeddem o'r farn bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol a'i fod yn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Roedd mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Mae'r practis wedi'i leoli yn agos i ganol tref Llanelli. Ceir pump deintyddfa yn y practis, gyda dwy ddeintyddfa ar y llawr daear a thair deintyddfa ar y llawr cyntaf. Mae'r dderbynfa a'r man aros i gleifion ar y llawr daear. Mae maes parcio bach y tu cefn i'r practis gyda lle parcio penodol ar gyfer pobl anabl. Mae maes parcio talu ac arddangos mawr yn agos hefyd.

Ceir mynediad i'r practis trwy fynedfa gefn sydd wrth ochr y gilfach barcio ar gyfer yr anabl, ac mae'n addas i ddefnyddwyr cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symud. Fodd bynnag, roedd y drws yn y fynedfa gefn o led safonol ac mae'n bosib na fyddai'n addas i gadeiriau olwyn mwy o faint. Dywedodd staff wrthym y byddai deintydd yn gallu gweld claf yn un o'r deintyddfeydd ar y llawr daear, pe bai hynny'n ofynnol. Mae toiled hygyrch i gleifion wedi'i leoli ar y llawr daear.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis yn nodi'r rhif cyswllt mewn argyfwng ar gyfer gwasanaethau 'y tu allan i oriau gwaith'. Gwelsom arwydd y tu mewn i'r drws ffrynt hefyd yn nodi enwau a chymwysterau deintyddion. Fodd bynnag, nid oedd yr arwydd hwn yn gyfredol gan ei fod yn cynnwys enwau deintyddion nad oeddent yn gweithio yn y practis mwyach. Yn unol â safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, dylai cleifion allu gweld enwau a gwybodaeth am aelodau o'r tîm sy'n gweithio yn y practis. Sylwyd hefyd bod hen enw'r practis, 'Deintyddfa Berwen' yn parhau i fod ar yr arwydd uwchben drws y practis ac nid yr enw masnachu presennol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod yn y broses o gael eu hail-frandio ac y byddai'r arwydd hwn yn cael ei ddiweddarw wedyn.

Argymhelliad

Dylai'r practis ddiweddarw'r arwyddion gwybodaeth a arddangosir yn y practis, gan gynnwys enwau aelodau'r tîm sy'n gweithio yn y practis.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, y tu mewn a'r tu allan. Roedd y man aros o faint addas i nifer y deintyddfeydd. Yn ogystal â'r toiled hygyrch i gleifion, roedd toiled i'r staff ar y llawr daear. Roedd y ddau doiled i'w gweld yn lân ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo er mwyn atal croes heintio. Roedd ystafell staff ar gael ar y llawr cyntaf hefyd gyda loceri i'r staff ddiogelu eu heiddo.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi eu harchwilio'n ddiweddar. Fodd bynnag, sylwyd bod arwydd yn y coridor ar gyfer yr ail allanfa dân oedd yng nghefn yr adeilad, ond nad oedd arwydd allanfa dân uwchben y drws. Cytunodd y practis i roi sylw i hyn.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis sicrhau bod arwyddion priodol ar gyfer yr allanfa dân yng nghefn yr adeilad.

Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd un o'r cypyrddau ffeilio yn y dderbynfa a oedd yn cynnwys cofnodion hanesyddol am gleifion, wedi'i gloi.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis sicrhau diogelwch yr holl wybodaeth am gleifion, gan gynnwys cofnodion hanesyddol, a gedwir yn y practis.

6. Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol IDH Stryd Thomas yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC a chaiff ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol IDH Stryd Thomas

Dyddiad yr Arolygiad: 9 Chwefror 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
7	Dylai'r practis ddatblygu dull o geisio barn ac adborth gan gleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.	Gosod ffurflenni adborth yn y dderbynfa a chael y derbynyddion i'w rhoi i gleifion. Cynhelir arolygon neges testun trwy ganolfan gymorth IDH; byddwn yn gallu cael gafael ar y canlyniadau trwy'r porth a byddwn yn defnyddio'r canlyniadau i gynnal trafodaethau yn ystod ein cyfarfodydd tîm practis. Rheolwr y practis i sicrhau bod cwynion yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod tîm practis misol, er mwyn canfod beth y dylid ei ddysgu a'r gwelliannau i'w gwneud.	Y Rheolwr Practis Dros Dro	Wedi'i wneud
8	Dylai'r practis sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ar ei wefan yn cydymffurfio â	Mae IDH yn ymwybodol o'r tri maes yng nghanllawiau moesol y Cyngor Deintyddol	Canolfan Gymorth IDH	1 wythnos i gadarnhau

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	chanllawiau hysbysebu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Cyffredinol sydd angen eu cynnwys ar wefan yr IDH. Mae gwefan y practis yn cael ei newid yn rhan o'r broses ail-frandio. Dyddiad ail-frandio i'w gadarnhau.		dyddiad ail-frandio ac adolygiad
8	Dylai'r practis ystyried darparu gwybodaeth bellach i gleifion am hybu iechyd.	Rheolwr y practis i ddarllen/cael enghreifftiau o daflenni'n rhoi cyngor am driniaethau a ddarperir gan IDH trwy'r porth marchnata. Rheolwr y practis i ddarllen y bwletin/'buzz' wythnosol lle ceir gwybodaeth am hybu iechyd y geg a lle mae'n disgrifio lle/sut y gellir eu cael neu os yw'r cwmni'n anfon y pecynnau'n uniongyrchol i'r practis (h.y. hybu fflworid ar gyfer plant)	Y Rheolwr Practis Dros Dro	Mai 2015
Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru				
10	Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion hyfforddiant unigol ar gyfer dadheintio ar gael i'r holl staff sy'n ymwneud â dadheintio.	IDH i ddarparu hyfforddiant ar reoli heintiau i reolwr y practis ei gwblhau. Darparu tystiolaeth bod nyrsys wedi cwblhau modiwl ar reoli heintiau ar System Rheoli Dysgu (LMS), sydd bellach ar gael, ac y bydd yn cael ei chynnwys ar y gofrestr. Mae gwybodaeth am unrhyw hyfforddiant arall a fynychwyd/gwblhawyd gan aelodau o'r tîm, i'w chynnwys (datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer deintyddion/hylenwyr). Dylid cynnwys cyfeirio at hyfforddiant sefydlu/arsylwadau. Pan fo unrhyw fylchau, rheolwr y practis i drafod gydag unigolion a gwneud trefniadau	Y Rheolwr Practis Dros Dro	6 wythnos

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		angenrheidiol.		
10	Dylai'r practis sicrhau bod modelau/argraffiadau deintyddol yn cael eu gwaredu yn y cynhwysydd gypswm priodol ac nid yn y bagiau gwastraff clinigol.	Cysylltu ag SRCL am gynhwysydd gypswm	Y Rheolwr Practis Dros Dro	Wedi'i wneud
10	Dylai'r practis sicrhau bod polisi trin mercwri cyfredol yn cael ei sefydlu.	Mae IDH wedi sefydlu polisi gwastraff clinigol a gwastraff peryglus. Mae'n cynnwys adran ar amalgam ond nid yw'n glir o ran sut i ymdrin â mercwri. IDH i lunio'r polisi gofynnol a'i weithredu.	Canolfan Gymorth IDH	Ebrill 2015
12	Dylid gwneud gwelliannau i'r broses o gadw cofnodion cleifion, yn enwedig o ran hanes cymdeithasol, cynllunio triniaeth, dewisiadau o ran triniaethau, cydsyniad deallus, sgrinio ar gyfer canser y geg, a nodiadau yn ymwneud â radiograffau. Dylai'r practis sicrhau bod y canllawiau a'r meini prawf dethol yn cael eu dilyn o ran pa mor aml y dylid cymryd radiograffau.	Rheolwr y practis i gadarnhau bod archwiliadau cerdyn cofnod wedi'u cynnal ar gyfer pob clinigydd o fewn y chwe mis diwethaf yn unol â pholisi'r cwmni. Rhaid trafod y canlyniadau gyda'r clinigwyr unigol a sefydlu cynlluniau gwella. Rheolwr y practis i gysylltu â Chyfarwyddwyr Clinigol IDH neu Rheolwyr Cymorth y Gwasanaethau Clinigol yr ardal os nodir bod pryderon o bwys, neu os oes angen cymorth/cyngor ar reolwr y practis.	Deintyddion/Y Rheolwr Practis Dros Dro/Rheolwyr Cymorth y Gwasanaethau Clinigol/Cyfarwyddwyr Clinigol	AR UNWAITH
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
13	Dylai'r practis gael system gadarn ar gyfer	Mae gan IDH restr o bolisïau a gweithdrefnau,	Canolfan Gefnogaeth	Mai 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n gyfredol, wedi'u haddasu ar gyfer defnydd lleol a bod y staff yn ymwybodol ohonynt.	gan gynnwys dyddiadau adolygu. Mae pob adran yn gyfrifol am adolygu eu polisiau a'u gweithdrefnau. Mae'n amlwg nad dyma'r drefn bob tro. Mae adolygiad gan y cwmni ar y gweill ar hyn o bryd a dylai fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mai. Mae templedi polisiau a gweithdrefnau ar gael a dylid eu cwblhau at ddefnydd lleol h.y. rheolau lleol. Rheolwr y practis i archwilio a chadarnhau eu bod wedi'u cwblhau. Gellir darparu rhestr o ba rai ddylai gynnwys gwybodaeth lefel leol ar gyfer rheolwr y practis os yw hynny'n ofynnol. Rheolwr y practis i drafod unrhyw bolisiau/gweithdrefnau sydd newydd eu cwblhau yn ystod cyfarfod tîm y practis.	IDH/Y Rheolwr Practis Dros Dro	
14	Dylai'r practis sicrhau bod arfarniadau'n cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis.	Rheolwr y practis i lunio amserlen ar gyfer arfarniadau staff. Y Rheolwr Practis Dros Dro i ddechrau'r broses.	Y Rheolwr Practis Dros Dro	6 mis
14	Dylai'r practis sicrhau bod y staff clinigol yn cael y brechiadau priodol a bod y cofnodion yn glir o ran statws imiwnedd.	Gofyn i'r staff gymryd yr holl frechiadau priodol.	Y Rheolwr Practis Dros Dro	6 wythnos
15	Rhaid i'r amserlen ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion, a nodir yn y polisi	Mae'r cwmni wedi sefydlu polisi/cyhoeddiad a chod ymarfer penodol i Gymru a ysgrifennwyd yn	Y Rheolwr Practis Dros Dro	Ar unwaith

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	cwynion, gydymffurfio â Gweithio i Wella i gleifion y GIG (cydnabod mewn dau ddiwrnod, ymateb mewn tridiau), ac â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat i gleifion preifat (cydnabod mewn tridiau, ymateb mewn deg diwrnod). Dylid darparu manylion cyswllt sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw pe byddai ganddynt gwynion (h.y. AGIC, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol). Dylai'r polisi cwyno nodi'n fanwl y weithdrefn a'r sefydliadau i gysylltu â nhw, yn dibynnu ar ba un a yw cleifion yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG.	unol â'r ddogfen Gweithio i Wella a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Rheolwr y practis i gysylltu â'r Tîm Cymorth i Gleifion er mwyn sicrhau bod ganddynt y fersiynau cywir ohonynt, ac i ddarparu hyfforddiant ar y gweithdrefnau hyn ar gyfer y tîm practis cyn gynted â phosibl. Rheolwr y practis i arddangos a gweithredu'r defnydd o gyhoeddiadau a chodau ymarfer cywir cyn gynted â phosibl.		
Ansawdd yr Amgylchedd				
16	Dylai'r practis ddiweddarau'r arwyddion gwybodaeth a arddangosir yn y practis, gan gynnwys enwau aelodau'r tîm sy'n gweithio yn y practis.	Rheolwr y practis i sicrhau bod y templed poster cyfarfod â'r tîm a ddarperir gan IDH yn cael ei arddangos ar unwaith. Rheolwr y practis i gysylltu â thîm Care Quality Commission IDH er mwyn penderfynu pa arwyddion yn union sydd ar goll a byddant yn rhoi cyngor ynglŷn â beth i'w wneud nesaf.	Y Rheolwr Practis Dros Dro	Ar unwaith
17	Rhaid i'r practis sicrhau bod arwyddion	Gosod arwydd allanfa.	Y Rheolwr Practis	Wedi'i wneud

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	priodol ar gyfer yr allanfa dân yng nghefn yr adeilad.		Dros Dro	
17	Rhaid i'r practis sicrhau diogelwch yr holl wybodaeth am gleifion, gan gynnwys cofnodion hanesyddol, a gedwir yn y practis.	Archebu cwpwrdd ffeilio newydd	Y Rheolwr Practis Dros Dro	Archebu ar unwaith

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (wedi'i brintio): Charlotte Evans

Teitl: Y Rheolwr Practis Dros Dro

Llofnod: C.Evans

Dyddiad: 12/03/2015